Cofnodion Pwyllgor Cynllunio a Materion Cyffredinol Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd ar Nos Fercher yr 8fed o Ebrill 2009, yn Neuadd a Sir, Llandeilo am 7.00yh

Presennol: Y Maer y Cyng. Edward Thomas, y Cyng. Colin Jenkins (Cadeirydd), y Cyng. Christopher Parish, y Cyng. Julia Jones, y Cyng. Dawn Wallace.
Clerc y Dref
Des Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau Y Dirprwy Faeres y Cyng. Charlotte Leadbeater, y Cyng. Richard Wallace, y Cyng. Roy Davies, y Cyng. Fran Murphy

Cof 1 / Ebrill/ 09 Ceisiadau Cynllunio i'w penderfynu

E/20850 Amrywiad ar amod 2 o ganiatâd cynllunio E/20123, newid i gynllun y pafiliwn tenis yn Parc le Conquet.
Dim gwrthwynebiad, ar yr amod ei fod yn cydymffurfio â'r holl reoliadau cynllunio a phriffyrdd presennol. Mae'n siom na ellid dod o hyd i nawdd i ddarparu adeilad sy'n cyd-fynd yn well gyda'i amgylchoedd, fel oedd yr achos gyda'r pafiliwn Bowls.

Cof 2 / Ebrill / 09 Doedd dim Penderfyniadau am Geisiadau Cynllunio

Cof 3 / Ebrill/ 09 Doedd dim Penderfyniadau am Geisiadau Cynllunio

Cof 4 / Ebrill / 09 Ni chafodd unrhyw Geisiadau Cynllunio eu tynnu yn ôl

Cof 5 / Ebrill/ 09 Doedd dim Apeliadau Cynllunio

Cof 6 / Ebrill /09 Materion yn ymwneud â Thrafnidiaeth a Phriffyrdd

1. Ateb oddi wrth y TRA mewn perthynas â'r peryglon traffig a amlinellwyd gan Mr Bracham ar groesfan yr A40 ger Tafarn y White Hart. Bydd LlCC yn cynnal arolwg o'r peryglon posib.
2. Ateb oddi wrth y TRA yn datgan y gofynnwyd eto i berchennog archfarchnad CK's i dynnu'r arwydd sy'n rhwystro gyrwyr rhag gweld wrth iddynt adael Heol Cilgant.
3. Cafwyd sylw gan Gynghorydd am lori sbwriel CSG yn cildroi i'r cyfeiriad anghywir i fyny heol yr Adeiladau'r Banc, ac yna'n gyrru allan i'r cyfeiriad anghywir. Byddai'r Clerc yn ysgrifennu at Wasanaethau Stryd CSG.

Cof 7 / Ebrill/ 09 Adroddiad y Swyddog Technegol

Byddai Mr Davies yn ymchwilio i'r angen am oleuadau diogelwch yn ardal Neuadd y Sir, yn achos argyfyngau a achosir gan doriad trydan.

Cof 8 / Ebrill /09 Gohebiaeth

1. Miss Thirza Swindells mewn perthynas â'r coed ar hyd y Cilgant sy'n cuddio'r golygfeydd o Ddyffryn Tywi. Byddai'r Swyddog Technegol yn ymchwilio ac yna byddai'n anfon llythyr i berchenogion y tir dan sylw.
2. Mr D.A.Jones yn holi a ellir arddangos baner Cymru ar safle Castell Dinefwr, fel y mae cestyll mawr eraill yng Nghymru yn gwneud. Byddai'r Clerc yn ysgrifennu at yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Cadw.
3. Y Really Welsh Company yn hysbysebu i gael Awdurdodau Lleol i blannu cennin Pedr. Bydd y mater yn cael ei drafod yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Llawn.

Cof 9/ Ebrill / 09 Doedd dim eitemau arall o fusnes

Daeth y cyfarfod i ben am 7.50yh.

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk